# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)18-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 9 Mehefin 2009

**Amser:** 08.30

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod y 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorwr Cyfansoddiadol

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)16-08 (Cofnodion drafft) - dydd Mawrth 2 Mehefin 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)17-09(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn gwneud datganiad ynghylch Dairy Farmers of Britain yn ystod Cyfarfod Llawn dydd Mawrth.

3.2 Nododd y Pwyllgor na fyddai'r cyfnod pleidleisio yn digwydd cyn 5pm ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn y busnes ar gyfer 9 a 10 Mehefin 2009.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)17-09(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf.

**Amserlen Busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y 3 wythnos nesaf - BC(3)17-09(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r dadleuon a ganlyn:

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar fyfyrwyr ôl-19 sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (60 munud) ar 24 Mehefin;

Dadl Cyfnod 1 ar y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) (60 munud) ar 1 Gorffennaf; a

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r dirwasgiad economaidd byd-eang presennol (60 munud) ar 1 Gorffennaf.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Llythyr gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2: Ethol Cadeirydd Dros Dro - BC(3)17-09(p4)**

4.1 Trafododd y Pwyllgor Busnes lythyr gan Jeff Cuthbert mewn perthynas â chadeiryddion dros dro Pwyllgorau Deddfwriaeth. Nodwyd iddo gael ei ethol yn gadeirydd dros dro Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 yn absenoldeb Val Lloyd. Ni wnaed y penderfyniad i ethol Jeff Cuthbert yn unol â'r Confensiynau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Busnes ynghylch y ffordd y gweithredir Pwyllgorau Deddfwriaeth.

4.2 Nododd y Pwyllgor Busnes mai'r rheswm dros beidio â chydymffurfio â'r Confensiwn oedd y byddai'r Pwyllgor yn gorffen ei adroddiad, ac y byddai'n well pe bai gan y Cadeirydd dros dro ddealltwriaeth drylwyr o'r materion. Cytunodd y Pwyllgor Busnes, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, ei bod yn ddealladwy pam nad oedd y Pwyllgor wedi cydymffurfio â'r Confensiwn. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor nad yw'n dymuno i hyn fod yn ddigwyddiad arferol, yn enwedig wrth ystyried trafodion Cyfnod 2 Mesurau.

4.3 Cytunwyd y dylai'r Llywydd ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgorau Deddfwriaeth i gyfleu safbwynt y Pwyllgor Busnes.

**Llythyr gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4: Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (yr Amgylchedd) 2009 - BC(3)17-09(p5)**

4.4 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes gais gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4, i ymestyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Gorchymyn ynghylch yr amgylchedd un wythnos o 12 Mehefin i 19 Mehefin. Cytunodd y Pwyllgor i'r cais.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**